**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol**

**Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 dros Microsoft Teams**

**1. Yn bresennol**

Vikki Howells AS, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol
Roger Maggs (Siaradwr), Cadeirydd Dros Dro, Y Porthladd Rhydd Celtaidd
David Gwynne (Siaradwr), Prif Swyddog Gweithredol Interim, Y Porthladd Rhydd Celtaidd
Alice Jones, Associated British Ports
Yr Athro Peter Tyler (Siaradwr), Prifysgol Caergrawnt
David Rees AS
Y Cynghorydd Steve Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Cynghorydd Huw David, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd Gareth Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a Chadeirydd Cynghrair Cymru
Y Cynghorydd Jeremy J. Hurley, Aelod Cabinet, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd Andrew Dacey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Julia Silezin, Swyddfa Beth Winter, Aelod o Senedd y DU
Suela Martini, Swyddfa Stephen Kinnock, Aelod o Senedd y DU
Robin Lewis, Swyddfa Vikki Howells AS
Owen Thomas, Swyddfa John Griffiths AS
Emily Hearne, Swyddfa David Rees AS
Henry Davies, Swyddfa Huw Irranca-Davies AS
Adil Pirmohamed, Uwch Swyddog Datblygu Economaidd, Castell-nedd Port Talbot
Julie Davies, Swyddog Datblygu Economaidd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Sarah Gaze, Swyddog Cymorth Masnach Ryngwladol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Yr Athro Steve Fothergill, Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol
Yr Athro Calvin Jones, Prifysgol Caerdydd
Dylan Henderson, Prifysgol Caerdydd
Phillip Omara, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol
Meirion Thomas (Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol), Cyfarwyddwr Cynghrair Cymru

**1. Croeso**

Croesawodd Vikki Howells AS, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, bawb a oedd yn bresennol, gan estyn croeso arbennig i’r siaradwyr ar gyfer y sesiwn.

Ar gais nifer o'r rhai a wahoddwyd i’r cyfarfod ond nad oeddent yn gallu bod yn bresennol ar y diwrnod, gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw un yn gwrthwynebu’r cam o recordio’r cyfarfod, fel y gellid ei rannu yn ddiweddarach â’r gwahoddedigion hynny a oedd yn gwneud cais penodol i’w gael.

Nid oedd gwrthwynebiad, ac felly cafodd y cyfarfod ei recordio o'r pwynt hwn.

## 2. Ymddiheuriadau

Cafwyd yr ymddiheuriadau a ganlyn:
Joel James AS; Peredur Owen Griffiths AS; Llyr Gruffydd AS; Beth Winter, Aelod o Senedd y DU; a Stephen Kinnock, Aelod o Senedd y DU.

## 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2023

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo gydag un newid i Eitem 6, yn sgil cais gan y Cynghorydd Gareth Jones o gyngor Rhondda Cynon Taf fod y testun yn cael ei addasu i ddatgan yn fwy cywir mai dyma oedd ei gwestiwn i Lisa Nandy, Aelod o Senedd y DU:

*“a yw’r Blaid Lafur bellach yn cefnogi morglawdd bae Abertawe, sef y fenter yr oedd Theresa May, y Prif Weinidog ar y pryd, wedi dod i Abertawe yn barod i’w chymeradwyo, ond a gafodd ei gwrthod gan San Steffan yn dilyn hynny?”*

Derbyniwyd y newid fel y’i drafftiwyd uchod.

## 4. Gohebiaeth yn codi o’r cyfarfod blaenorol ar 7 Chwefror.

Yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, gwnaeth Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol gyfnewid llythyrau â Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi (mae copïau o’r ohebiaeth honno wedi’u hatodi). Cyfnewidiwyd yr ohebiaeth honno yn sgil y cyflwyniad a roddwyd yn ystod cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol gan Lisa Nandy AS, a’r drafodaeth ddilynol.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, rhoddodd yr Athro Steve Fothergill, Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol, ddiweddariad ar y ddeialog barhaus rhwng y Gynghrair a Gweinidogion a swyddogion y DU.

Nid yw'r cynigion ynghylch y posibilrwydd o symleiddio’r drefn ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Bro ar draws y DU wedi dod i’r amlwg hyd yn hyn, ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu goddiweddyd gan drafodaethau eraill sy'n mynd rhagddynt. Yn benodol, ymddengys fod y ddadl o blaid cynnal trefniant ar wahân ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin o fewn y trefniadau cyllido ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro yn y dyfodol yn cael mwy o gefnogaeth. Mae ystyriaeth ffafriol yn cael ei rhoi i’r posibilrwydd hwn gan awdurdodau lleol ledled y DU, gan y Grŵp Seneddol Hollbleidiol yn San Steffan, ac mewn deialog ag uwch weision sifil yn Whitehall sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn.

Yn yr un modd, o ran y ddarpariaeth a'r trefniadau ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Bro yn y tymor hwy, mae'r Gynghrair yn parhau i ymgysylltu â Thrysorlys y DU ac

eraill ac yn parhau i drafod y mater. Mae'r ymdrech hon yn debygol o barhau yn y dyfodol agos.

## 5. Porthladdoedd rhydd a pharthau buddsoddi

### a) Y Porthladd Rhydd Celtaidd

Croesawodd y Cadeirydd Roger Maggs (y Cadeirydd dros dro) a David Gwynne (y Prif Weithredwr Dros Dro) a diolchodd iddynt am eu parodrwydd i roi cyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol.

*(Cafodd y cyflwyniad ei rannu rhwng y ddau siaradwr a'i ategu gan y defnydd o sleidiau. Mae copïau o'r sleidiau a thrawsgrifiad o'r cyflwyniad wedi'u hatodi.)*

Nod prosiect y Porthladd Rhydd Celtaidd, sy'n cael ei arwain gan Borthladd Aberdaugleddau, Associated British Ports, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, a Chyngor Sir Penfro, yw manteisio i'r eithaf ar botensial y Môr Celtaidd i gynhyrchu trydan drwy ddatblygiadau ynni gwynt arnofiol ar y môr (datblygiadau FLOW).

Nod y prosiect arfaethedig yw gwneud Cymru yn arweinydd byd-eang o ran datblygiadau ynni gwynt arnofiol ar y môr, gan greu cyfleoedd allforio tra'n cadw'r swyddi a'r sgiliau sy'n bodoli ar hyn o bryd a chreu nifer uchel o swyddi newydd o ansawdd uchel.

Mae'r prosiect am fanteisio ar botensial rhyfeddol y Môr Celtaidd, sydd â'r cyflymder gwynt blynyddol cymedrig uchaf yn y byd, a dau o'r porthladdoedd gorau a dyfnaf yn Ewrop, yn Aberdaugleddau a Phort Talbot.

Mae ynni gwynt arnofiol ar y môr yn gysyniad sy'n parhau i gael ei ehangu ar hyn o bryd. Mae fferm wynt arnofiol wedi'i lleoli oddi ar arfordir yr Alban ar hyn o bryd (Hywind Scotland). Mae'r fenter hon yn profi'r cysyniad ac yn dangos ei fod yn bosibl. Fodd bynnag, mae prosiect Hywind yn gymharol fach o ran maint o'i gymharu â photensial y Môr Celtaidd.

Mae strwythurau'r tyrbinau gwynt y bwriedir eu hadeiladu ym Mhort Talbot yn enfawr (bydd gan strwythur tyrbin 200 MW uchder o oddeutu 300 metr). Bydd angen buddsoddiadau sylweddol yn y seilwaith, ynghyd â threfniadau cydgysylltu logistaidd a mentrau polisi llwyddiannus, i'w rhoi ar waith.

Pan na fydd ei angen ar y grid, mae'n bosibl y bydd yr ynni a gynhyrchir gan y tyrbinau yn cael ei storio fel hydrogen, gan olygu y bydd y Porthladd Rhydd Celtaidd yn cynhyrchu tua 1/5 o darged hydrogen y DU.

Mae'r prosiect wedi'i seilio ar lawer o gryfderau presennol yr economi ranbarthol. Mae'r tîm wedi creu partneriaethau â chwmnïau mawr fel RWE a Tata ym Mhort Talbot. Gwnaeth y tîm sôn hefyd am ddefnyddio'r arbenigedd yn y ganolfan hydrogen ym Mhort Talbot a'r cyfleusterau ar gyfer trin cynnyrch nwyol yn Aberdaugleddau.

Mae cynlluniau ar y gweill i greu bwrdd llywodraethu ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd, gan alinio amcanion Llywodraeth Cymru, Llywodraeth San Steffan, ac Adran Ffyniant Bro y DU.

Tynnodd y tîm sylw at yr angen i sicrhau bod cymhellion buddsoddi’r sector cyhoeddus yn cyfateb i gymhellion y sector preifat, gan greu twf ymhlith sectorau newydd, a datblygu ardrethi busnes newydd ar gyfer y rhanbarth.

Cyflwynodd y tîm gynigion ym mis Tachwedd 2022, a chafwyd cyhoeddiad ym mis Mawrth 2023 mai dyma oedd y lleoliad llwyddiannus.

Mae’n debygol y bydd y broses ar gyfer cymeradwyo’r achos busnes yn derfynol yn para hyd at dymor yr haf 2024.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan gyfranogwyr y Grŵp Trawsbleidiol:

Diolchodd y Cynghorydd Steve Hunt, arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, i Roger a David am eu cyflwyniad, gan gydnabod yr heriau a’r cyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r prosiect.

Pwysleisiodd fanteision posibl y prosiect, nid yn unig i ardaloedd penodol fel Aberdaugleddau, Hwlffordd, a Chastell-nedd Port Talbot, ond hefyd i ranbarth de-orllewin Cymru yn ei chyfanrwydd, ac i ogledd Cymru, gan gynnwys Ynys Môn.

Nododd y Cynghorydd Hunt bwysigrwydd cynnal cefnogaeth drawsbleidiol, a'r angen i sicrhau hyder y farchnad, o ystyried prosiectau yn y gorffennol na chawsant eu gwireddu.

Mynegodd y Cynghorydd Gareth Jones ei gyffro ynglŷn â'r prosiect, a hynny fel cynrychiolydd o gyngor Rhondda Cynon Taf. Yna, pwysleisiodd bwysigrwydd ceisio sicrhau'r cyfleoedd cynhyrchu gorau posibl yng Nghymru, a fydd yn 'gorlifo' i gymunedau ac ardaloedd y tu allan i safle’r porthladd rhydd ei hun. Lleisiodd bryderon hefyd am y ffaith y gallai buddsoddiadau allanol ddylanwadu'n fawr ar y prosiect, a mynegodd ei awydd i weld y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau yn dod o ffynonellau sydd o fewn y wlad lle bo modd.

Yn olaf, soniodd y Cadeirydd am botensial Bil seilwaith Cymru i symleiddio’r broses gynllunio ar gyfer datblygiadau seilwaith mawr.

Ymatebodd David a Roger i’r pwyntiau a godwyd, gan grybwyll yr angen i alinio prosesau cynllunio, parchu’r rheoliadau presennol, a gweithio gyda sefydliadau fel ABP (Associated British Ports) i sicrhau cydymffurfiaeth.

Roedd y siaradwyr hefyd yn cydnabod yr her o ddenu buddsoddiadau i Gymru a’r risg sy’n gysylltiedig â buddsoddiadau mawr o ffynonellau tramor. Fodd bynnag, pwysleisiwyd y manteision posibl o ran creu swyddi, cynhyrchu refeniw, a throsglwyddo gwybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu cyflwyniad, gan nodi ei bod yn edrych ymlaen at weld cynnydd parthed y cyfleoedd cyffrous sydd o'n blaenau.

## b) Parthau Buddsoddi

Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Peter Tyler, athro mewn economeg drefol a rhanbarthol yn Adran Economi'r Tir ym Mhrifysgol Caergrawnt, i roi cyflwyniad i'r grŵp ynghylch ei brofiad o raglenni ardaloedd menter/parthau buddsoddi a'i ddadansoddiad ohonynt, yn seiliedig ar brofiad byd-eang o bolisïau o'r fath dros gyfnod o 30 mlynedd.

*(Cafodd y cyflwyniad ei ategu gan y defnydd o sleidiau. Mae copïau o'r sleidiau a thrawsgrifiad o'r cyflwyniad wedi'u hatodi.)*

Eglurodd yr Athro Tyler fod parthau buddsoddi ac ardaloedd menter wedi cael eu defnyddio ers sawl degawd i ddenu buddsoddiadau ac ysgogi gweithgarwch economaidd mewn ardaloedd penodol. Dechreuodd y cysyniad yn y 1980au, gyda'r syniad o leihau'r baich treth a rheolaethau cynllunio er mwyn annog buddsoddi diwydiannol a masnachol. Dros amser, mae'r dull wedi esblygu, ac mae amrywiadau gwahanol wedi dod i'r amlwg gan gynnwys y defnydd o ardaloedd menter a pharthau buddsoddi. Yn fwy diweddar, mae parthau cyfle wedi'u creu mewn gwahanol wledydd, gan gynnwys yr Unol Daleithiau.

Prif amcanion y parthau hyn yw sbarduno gweithgarwch economaidd ychwanegol yn yr ardaloedd dynodedig a chyfrannu at eu hadfywiad ffisegol. Maent yn aml yn cynnwys esemptiadau treth ar adeiladau a buddsoddiadau, ynghyd â datblygu seilwaith. Mae llwyddiant y parthau hyn yn dibynnu ar drefniadau rheoli a chyflawni effeithiol, yn ogystal ag agosrwydd at gyfleoedd economaidd.

Mae cost y parthau hyn yn amrywio, yn dibynnu ar eu llwyddiant a'r adnoddau a gaiff eu buddsoddi. Ar gyfartaledd, amcangyfrifir y gall y gost i'r Llywodraeth fod oddeutu £40,000 am bob swydd a grëir.

Mae argaeledd adeiladau addas a'r gallu i ddenu buddsoddiadau yn ffactorau hanfodol o ran sicrhau llwyddiant y parthau hyn. Mae gostyngiadau treth a chymhellion eraill, megis lwfansau cyfalaf uwch, yn chwarae rhan yn y broses o ddenu buddsoddiadau. Fodd bynnag, gall eu heffaith gael ei mewnoli a'i hadlewyrchu yng ngwerthoedd y farchnad eiddo, sy'n awgrymu y gallai'r buddion treth sy'n cael eu mwynhau gan fusnesau gael eu lleihau o ystyried y costau rhentu eiddo uwch sydd i'w gweld yn y parth.

Er y gall y parthau hyn greu swyddi ac ysgogi datblygu economaidd, bu beirniadaeth ynghylch y ffaith eu bod yn dadleoli gweithgarwch o ardaloedd eraill. Yn fras, yn hanesyddol mae tua 2/5 o'r gweithgarwch yn y parthau dan sylw wedi cael ei ddadleoli, sy'n golygu nad yw pob swydd sy'n cael ei chreu yn swydd ychwanegol i'r ardal leol. Fodd bynnag, mae pobl leol yn tueddu i elwa'n sylweddol ar y cyfleoedd gwaith a grëir yn y parthau.

Gan mai un o'r heriau gyda'r parthau hyn yw lleihau'r lefel o ddadleoli a sicrhau nad yw buddsoddiadau yn cael eu symud o un ardal i'r llall yn unig, mae'r ffocws presennol ar rôl lleoedd a chlystyrau yn hollbwysig. Nod y parthau buddsoddi newydd yw mynd i'r afael â'r mater hwn drwy hyrwyddo'r broses o ddatblygu clystyrau a manteisio ar rinweddau lleoliadau penodol, a chreu buddion economaidd ychwanegol y tu hwnt i effeithiau dadleoli.

Mae'r gwersi a ddysgwyd yn sgil profiadau byd-eang blaenorol yn awgrymu bod llwyddiant parthau buddsoddi ac ardaloedd menter, fel arf i ddenu buddsoddiadau ac ysgogi gweithgarwch economaidd, yn dibynnu ar reolaeth effeithiol, agosrwydd at gyfleoedd economaidd, a lleihau dadleoli. Er bod gostyngiadau treth a chymhellion yn bwysig, mae ffactorau eraill, megis safleoedd addas a'r broses o ddatblygu clystyrau, hefyd yn chwarae rhan arwyddocaol.

Mae'r Athro Tyler yn awgrymu bod dull strategol o ddatblygu'r parthau, gan ystyried ffactorau fel maint y safle, gweithgarwch adfer tir, gweithgarwch cydosod tir, ac uwchgynllunio, yn hollbwysig.

O ran llwyddiant y parthau hyn, mae'r Athro Tyler hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd strategaethau datblygu clir, rheoli effeithiol, a threfniadau gweithredu llwyddiannus. Yn ogystal, amlygwyd rôl hyrwyddo a marchnata wrth ddenu buddsoddwyr a busnesau i'r parthau. Mae'r Athro Tyler yn crybwyll bod argaeledd adeiladau addas a gweithgarwch datblygu economaidd da yn yr ardal leol yn ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddiant.

Mae'r pecyn cymhellion a gaiff ei gynnig yn y cylch presennol o barthau buddsoddi yn cynnwys rhyddhad ardrethi busnes, lwfansau cyfalaf uwch, lwfans ar gyfer strwythurau ac adeiladau, rhyddhad ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol, a rhyddhad ar dreth dir y dreth stamp. Yn benodol, mae'r Athro Tyler yn nodi bod yr hyblygrwydd a ddarperir ym mhrosbectws newydd y parth buddsoddi yn welliant ar ddulliau blaenorol, gan ganiatáu i bartneriaid ddewis sut i rannu'r cymhellion buddsoddi rhwng gostyngiadau treth a grantiau eraill.

Yn gyffredinol, mae'r Athro Tyler yn credu y gall parthau buddsoddi ac ardaloedd menter fod yn effeithiol o ran sbarduno gweithgarwch datblygu economaidd os ydynt yn cael eu gweithredu a'u rheoli'n dda, ac os ydynt yn cyd-fynd ag anghenion a chyfleoedd penodol yr ardal leol.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau.

Gofynnodd y Cynghorydd Steve Hunt (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) am yr hyn sydd ar gael i sicrhau gweithgarwch economaidd a'i gymell y tu hwnt i gyfnod y gostyngiadau treth, sy'n destun cyfyngiad amser.

Mewn ymateb, dywedodd yr Athro Tyler fod gwir angen dull strategol o hyrwyddo datblygu economaidd er mwyn manteisio i'r eithaf ar gymhellion treth sy'n destun cyfyngiad amser. Er bod y cymhellion yn rhoi hwb i weithgarwch buddsoddi a thwf, mae'r faith eu bod yn para am gyfnod byr (pum mlynedd) yn golygu bod angen cymryd golwg hirdymor er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a sicrhau'r effaith fwyaf posibl yn sgil y cymhellion treth. Cafodd hyn ei danlinellu yn y drafodaeth ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r porthladd rhydd, ochr yn ochr â'r parth buddsoddi. Roedd Roger Maggs a David Gwynne yn trafod y ffaith bod angen cymryd golwg hirdymor o'r broses o drawsnewid Cymru, a de Cymru yn benodol, o'i gorffennol diwydiannol – efallai 20, 30 neu hyd yn oed 40 mlynedd.

Tynnodd yr Athro Tyler sylw at bwysigrwydd defnyddio cymhellion yn effeithiol, eu halinio'n strategol, a'u gweithredu'n amserol, gan ei bod yn bwysig peidio ag aros yn rhy hir i'w rhoi ar waith. Yn ogystal, pwysleisiodd yr angen am ddull clir a strategol o

gydosod a chynllunio tir, fel bod busnesau a buddsoddwyr yn gallu buddsoddi'n hyderus, gan wybod na fydd y cymhellion yn dod i ben cyn i'r gweithgarwch buddsoddi gael ei gwblhau. Dyna lle mae strategaeth gydlynol gref yn helpu'r broses, drwy ganolbwyntio ar fanteision y pethau tymor hwy yr ydych yn eu gwneud ar gyfer yr ardal, sy'n helpu i gynnal y buddsoddiad.

Ar y cyfan, felly, mae mabwysiadu dull cynhwysfawr a blaengar yn hanfodol o ran sicrhau'r buddion mwyaf posibl yn sgil y cymhellion a'r twf economaidd hirdymor a geir yn y rhanbarth, gan fod y cloc yn tician cyn gynted ag y bydd y parth yn ei le.

Roedd David Gwynne yn cytuno â'r pwyntiau a wnaed gan y Cynghorydd Hunt a'r Athro Tyler. Er bod modd ymestyn unrhyw gymhellion treth, nododd fod buddsoddwyr am wybod am ba mor hir y bydd y gostyngiadau hynny ar waith. Wrth ystyried yr holl gyfyngiadau eraill y maent yn eu hwynebu – cynllunio; trafodaethau gyda thirfeddianwyr; cyfleusterau adeiladu; seilwaith ac ati – gall 5 mlynedd fynd heibio yn gyflym iawn. Mae risg y gallwch fod yn wynebu ymyl clogwyn, a all fod yn wrthgynhyrchiol o ran y buddsoddiadau yr ydych yn eu ceisio. O safbwynt porthladdoedd rhydd, rydym yn gwneud y ddadl dros gael cyfnod hirach, ac ymestyn yr amser hwnnw pan fydd modd hawlio'r budd-daliadau treth hynny, a hynny er mwyn osgoi'r risg benodol o wynebu ymyl clogwyn. Mae'r porthladdoedd rhydd yn Lloegr yn gwneud yr un ddadl hefyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Tyler am ei gyflwyniad arbenigol, ac am ei safbwyntiau beirniadol yn seiliedig ar ei brofiad byd-eang helaeth. Bydd hyn yn rhoi digon inni gnoi cil arno wrth i'r prosiect parthau buddsoddi fynd yn ei flaen.

Roedd yn rhaid i'r Cadeirydd adael y cyfarfod ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog. Yn dilyn ei ymadawiad, cymerodd Meirion Thomas (ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol) yr awenau fel Cadeirydd am weddill y cyfarfod.

### 6. Pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Nododd y Cadeirydd, wrth edrych yn ôl dros y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2022, roedd y pynciau a awgrymwyd ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- datgarboneiddio'r diwydiant dur
- pontio i'r economi werdd
- pobl ifanc a'r farchnad lafur
- trafnidiaeth gyhoeddus

Nodwyd bod y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol, o fewn y mis diwethaf, naill ai wedi cyhoeddi, neu wedi bod yn rhan o'r broses o gyhoeddi, dau adroddiad pwysig sy'n berthnasol i'r rhestr o bynciau a grybwyllwyd ar gyfer y dyfodol:

- Adroddiad ar brentisiaethau yn y DU, o dan y teitl **"Vocation, Vocation, Vocation",** sy'n berthnasol i bobl ifanc a'r farchnad lafur, sef un o'r pynciau a awgrymwyd.
- Yr adroddiad diweddar ar **Gymunedau Maes Glo** (12 Mehefin), a lansiwyd gan Grŵp Seneddol Hollbleidiol San Steffan, dan gadeiryddiaeth Alex Davies-

Jones, Aelod o Senedd y DU. Bu’r Gynghrair yn ymwneud yn helaeth â’r adroddiad hwnnw.

Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r naill neu'r llall o'r rhain ddarparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol a hynod berthnasol ar gyfer cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ym mis Hydref. Fel y nodwyd, bydd y cyfarfod hwnnw hefyd yn cael ei drin fel Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol.

**7. Unrhyw fater arall**

Ni adroddwyd unrhyw fater arall.

**8. Sylwadau i gloi**

Wrth gloi'r cyfarfod, ategodd y Cadeirydd ddiolch a gwerthfawrogiad y Grŵp Trawsbleidiol parthed y ddau gyflwyniad hynod addysgiadol a gafwyd.

Gellid sicrhau bod copïau ar gael o'r ddau gyflwyniad, trawsgrifiad o'r cyflwyniadau ac, os oes angen, recordiad o brif ran y sesiwn.